

Gwybodaeth am Gydraddoldeb y Gweithlu

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi ymrwmo i ddarparu gofal rhagorol i gleifion ac rydym yn gwneud hyn drwy sicrhau bod gennym weithlu amrywiol, dawnus sy'n perfformio'n dda.

Yn yr adran hon o'r adroddiad blynyddol rydym yn cyflwyno trosolwg o'n gwybodaeth am gydraddoldeb y gweithlu; mae'r data manwl wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn. Dylid nodi bod anabledd, ethnigrwydd, cred grefyddol a chyfeiriadedd rhywiol yn gategorïau hunan-gofnodedig ar y Cofnod Staff Electronig. Gan y gall staff gadw'r hawl i wrthod y cyfle i gwblhau gwaith monitro data cydraddoldeb, rydym yn cydnabod efallai na fydd y data a gyflwynir yn adlewyrchu proffil demograffig y gweithlu yn llawn.

Darperir cymariaethau, rhwng data cydraddoldeb y gweithlu a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2025 yn erbyn data a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2024 a lle bo modd, gwneir cymariaethau rhwng data gweithlu Mawrth 2025 a Chyfrifiad 2021. Fodd bynnag, dylid nodi bod y Cyfrifiad yn adrodd gwybodaeth i bobl o bob oed, nid dim ond y rhai o oedran gweithio. Er mwyn ein helpu i ddeall data ein gweithlu yn well, rydym hefyd wedi cynnal rhywfaint o ddadansoddiad croestoriadol.

Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys crynodeb o ddadansoddiad o achosion Parch a Datrys a Disgyblu.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyhoeddi adroddiadau bwch cyflog ar wahân ar anabledd, ethnigrwydd a rhyw (Atodiad 2). Mae'r data yn yr adroddiadau bwch cyflog yn adlewyrchu unigolion a dderbyniodd daliadau yn ystod y flwyddyn tra bod data cydraddoldeb y gweithlu yn seiliedig ar yr holl staff a gyflogir fel gweithwyr (gan gynnwys staff locwm a banc).

Proffil Oedran

Nododd Cyfrifiad 2021 fod rhwng 57-60% o'r boblogaeth ar draws y 3 sir o oedran gweithio (16-65 oed). Roedd mwyafrif y gweithlu ar 31 Mawrth 2025 rhwng 31 a 60 oed, sef tua 71% o'r staff.

Sir	% y boblogaeth wedi'u nodi fel oedran gweithio (16-65 oed) Cyfrifiad 2021	% y boblogaeth wedi'u nodi fel oedran gweithio (16-65 oed) Cyfrifiad 2011
Ceredigion	60%	68.5%
Sir Benfro	57%	60%
Sir Gaerfyrddin	58.5%	60%

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2021

O gymharu â 2024, roedd data gwybodaeth gweithlu ar 31 Mawrth 2025 yn dangos:

- Mae canran y staff sy'n nodi o fewn y proffil oedran ar gyfer 55 oed ac iau wedi cynyddu 0.01%.
- Mae canran y swyddi a gynigir i ymgeiswyr dros 60 oed yn is na'r grwpiau oedran iau. Fodd bynnag, o gymharu â nifer y ceisiadau a dderbyniwyd gan y grwpiau oedran hyn, mae gan ymgeiswyr dros 60 oed gyfradd llwyddiant well (16.35%) o gymharu â'r rhai dan 24 oed (6.91%), gwnaed 95 o gynigion cyflogaeth i ymgeiswyr dros 60 oed.
- Mae tua 29% o ymadawyr yn yr ystod oedran 16-35, 21% yn y grŵp oedran 36-50, 32% yn y grŵp oedran 51-65 a 10% yn 66 oed a hŷn.
- Dengys dadansoddiad o'r rhesymau pam y gadawodd gweithwyr y sefydliad:
 - Ymddiswyddwyd yn Wirfoddol mwyafrif y gweithwyr 16-35 oed. Roedd y prif resymau dros Ymddiswyddiad Gwirfoddol yn cynnwys: Arall/Anhysbys, (43%) ac Adleoli, (18%).
 - Ymddiswyddodd y gyfran uchaf o'r rhai 36-50 oed yn Wirfoddol gyda 38% o ymadawyr yn y categori hwn yn cael eu dangos fel Arall/Anhysbys a 15% wedi gadael y sefydliad oherwydd Cydbwysedd Bywyd a Gwaith.
 - Roedd tua 38% o ymadawyr 51-65 oed o Oed Ymddeol. Dewisodd tua 5% ymddeoliad cynnar.

Anabledd

Ar 31 Mawrth 2025, roedd y Bwrdd Iechyd yn cyflogi 718 o staff a nododd eu bod yn Anabl, a oedd yn cyfrif am 5.37% o'n gweithlu. Nid oedd 10.95% o staff wedi cofnodi eu hymateb i'r nodwedd hon ar eu cofnod ESR. Yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin, allan o 100 o bobl, datganodd 23% o'r boblogaeth salwch cyfyngus hirdymor. Yng Ngheredigion 21.9% ac yn Sir Benfro 22%. Er bod data'r gweithlu yn adlewyrchu'r rhai o oedran gweithio, mae'n bwysig nodi bod data'r Cyfrifiad yn dal pobl o bob oed.

Sir	% y boblogaeth sy'n anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb
Ceredigion	21.9%
Sir Benfro	22%
Sir Gaerfyrddin	23%

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2021

O gymharu â 2024, roedd data gwybodaeth am y gweithlu ar 31 Mawrth 2025 yn dangos:

- Mae canran y staff sy'n nodi nad ydynt yn anabl wedi cynyddu 1.32%.
- Mae canran y staff sy'n nodi bod ganddynt anabledd wedi cynyddu 0.98% yn y cyfnod adrodd.
- Mae canran y staff sy'n dewis peidio â darparu'r wybodaeth hon wedi aros yr un fath â'r hyn a adroddwyd yn 2023/24 sef 0.40%.
- Dylid nodi ers 2023/24 bod nifer y gweithwyr sydd heb gofnodi eu statws Anabledd ar ESR wedi gostwng 2.30% sy'n dangos defnydd cynyddol o ESR ar gyfer cofnodi data.
- O gyfanswm o 56,682 o geisiadau a gyflwynwyd am swyddi gwag, datganodd 3.1% (1,730) o ymgeiswyr eu hunain ag anabledd. O'r 1,730 o ymgeiswyr hynny, cynigiwyd cyflogaeth i 166 (9.6%), sef 9.6% o'r holl gynigion a wnaed. Dewisodd 1.4% o ymgeiswyr beidio â datgelu a oedd ganddynt anabledd ai peidio ar adeg y cais.
- Dywedodd 6% o'r rhai a adawodd y Bwrdd lechyd fod ganddynt anabledd. Roedd eu rhesymau dros adael yn cynnwys:

- Ymddiswyddiad Gwirfoddol oherwydd Arall/Anhysbys
- Oed Ymddeol
- Ymddiswyddiad Gwirfoddol oherwydd Cydbwysedd Bywyd a Gwaith

Ethnigrwydd

Ar 31 Mawrth 2025 roedd y Bwrdd lechyd yn cyflogi 1,249 o staff a nododd eu grŵp ethnig fel Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, Du neu Ddu Prydeinig, Cymysg, neu unrhyw grŵp ethnig arall. Roedd hyn yn cyfrif am 9.34% o'n gweithlu a chynnydd o 219 o staff o gymharu â data 2024. Yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, nododd dros 2% o'r boblogaeth eu bod yn grŵp ethnig lleiafrifol, ond yng Ngheredigion, nododd tua 3% o'r boblogaeth eu bod yn grŵp ethnig lleiafrifol. Mae 687 o weithwyr (5.14%) wedi dewis peidio â chofnodi eu hethnigrwydd ar y Cofnod Staff Electronig sy'n gwneud dadansoddi data a chymariaethau yn llai cywir.

O gymharu â 2024, roedd data gwybodaeth am y gweithlu ar 31 Mawrth 2025 yn dangos:

- Mae canran y staff sy'n nodi eu bod yn Wyn wedi gostwng 1.39%.
- Mae canran y staff sy'n nodi eu bod yn Ddu neu'n Ddu Prydeinig wedi cynyddu 0.12% rhwng y cyfnodau adrodd.
- Bu cynnydd o 1.29% yng nghanran y staff a nododd eu bod yn Asiaidd neu'n Asiaidd Prydeinig.
- Mae canran y staff sy'n nodi bod ganddynt ethnigrwydd cymysg wedi cynyddu 0.08%.
- Mae canran y staff sy'n nodi eu bod o Unrhyw Grŵp Ethnig Arall wedi cynyddu 0.9%.

- Mae'r staff hynny nad yw eu cofnodion wedi'u cofnodi ar ESR wedi gostwng 0.20%.
- Bydd y cynnydd uchod yn cael ei ddylanwadu gan gynnydd yn nifer y gweithwyr rhwng 2023/24 a 2024/25 o 71 o weithwyr.
- O gyfanswm o 56,682 o geisiadau a gyflwynwyd am swyddi gwag, datganodd 22.33% (12,657) o ymgeiswyr eu bod yn Wyn. O'r rheini roedd 5,803 o ymgeiswyr ar y rhestr fer (70.90%), a chynigiwyd cyflogaeth i 1,991 (74.9%). Dewisodd 1.34% o ymgeiswyr beidio â datgelu a oedd eu Ethnigwydd ar adeg y cais.
- Mae'r prif resymau a roddwyd gan weithwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn gadael y sefydliad yn cynnwys:
 - Ymddiswyddiad Gwirfoddol – Arall/Anhysbys
 - Adleoli

Rhyw

Ar 31 Mawrth 2025, roedd y Bwrdd Iechyd yn cyflogi 13,361 o staff, gyda 79.13% yn nodi eu bod yn fenywod a 20.87% yn nodi eu bod yn ddynion. Roedd data cyfrifiad 2021 yn dangos y canrannau gwrywaidd/benywaidd a ganlyn.

Sir	% y boblogaeth a nododd eu bod yn Gwryw	% y boblogaeth a nododd eu bod yn Benyw
Ceredigion	48.9%	51.1%
Sir Benfro	48.7%	51.3%
Sir Gaerfyrddin	48.8%	51.2%

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2021

Y grŵp staff meddygol a deintyddol yw'r unig grŵp staff lle mae mwy o wrywod yn cael eu cyflogi nag o fenywod.

O gyfanswm o 56,682 o geisiadau a gyflwynwyd am swyddi gwag yn ystod y flwyddyn roedd 38.73% (21,954) gan ddynion o gymharu â 60.91% (34,525) gan fenywod gyda 0.36% heb ddatgelu eu rhyw. O'r 8,185 o ymgeiswyr ar y rhestr fer roedd 27.54% yn ymgeiswyr gwrywaidd a 71.65% yn ymgeiswyr benywaidd. O gyfanswm y cynigion cyflogaeth (2,663 o swyddi), roedd 25% (656) yn ddynion o gymharu â 74% (1,983) o fenywod. Mae hyn yn dangos bod menywod wedi bod yn fwy llwyddiannus yn eu ceisiadau ar restr fer ac mewn cynigion cyflogaeth.

Roedd 76.21% o'r rhai a adawodd y Bwrdd Iechyd yn fenywod o gymharu â 23.79% yn ddynion. Roedd y rhesymau dros ymddiswyddiad gwirfoddol yn cynnwys:

- Arall/ddim yn hysbys – Benyw 199/ Gwryw 84
- Ymddeoliad – Benyw 180/ Gwryw 44

- Cydbwysedd Bywyd a Gwaith – Benyw 86/ Gwryw 15
- Adleoli – Benyw 74/ Gwryw 26

Hunaniaeth Rhywedd

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae 91-93% o'r boblogaeth ar draws ein tair sir yn nodi eu bod o'r un rhyw wedi'u cofrestru adeg eu geni.

Sir	Anneuaidd	Dyn Traws	Menyw Traws	Gwahanol i'r hyn a gofrestrwyd ar enedigaeth (heb ei nodi)
Ceredigion	0.22%	0.06%	0.12%	0.14%
Sir Gaerfyrddin	0.04%	0.06%	0.06%	0.12%
Sir Benfro	0.04%	0.06%	0.06%	0.12%

*Ni wnaeth cyfartaledd o 7% ateb y cwestiwn ar Hunaniaeth Rhywedd.

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2021

Nid yw ystadegau'n cael eu casglu ar system Cofnod Staff Electronig y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd felly nid oes modd dadansoddi data ymhellach.

Statws Priodasol

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae rhwng 43-47% o'r boblogaeth yn ein 3 sir yn nodi eu bod yn "briod", a thua 31-38% yn dweud eu bod yn "Sengl".

Sir	% o'r boblogaeth sy'n nodi eu bod yn briod	% o'r boblogaeth sy'n nodi nad ydynt erioed wedi priodi a heb gofrestru mewn partneriaeth sifil
Ceredigion	43.1%	38.7%
Sir Benfro	47.3%	31.8%
Sir Gaerfyrddin	47.3%	32.4%

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2021

O gymharu â 2024, roedd data gwybodaeth gweithlu ar 31 Mawrth 2025 yn dangos:

- Mae canran y staff sy'n manylu ar wybodaeth statws priodasol wedi gostwng 0.20%.
- Bydd y gostyngiad uchod yn cael ei ddylanwadu gan gynnydd yn nifer y staff rhwng y 2 flynedd o 71.
- Gadawodd nifer uwch o weithwyr 'Priod' oherwydd 'Oed Ymddeol' o gymharu â'r rhai sengl.
- Gadawodd mwy o weithwyr 'Sengl' y sefydliad o gymharu â'r lleill, oherwydd Ymddiswyddiad Gwirfoddol - Arall/Anhysbys, ac Adleoli.

Mamolaeth a Mabwysiadu

Ni chasglwyd unrhyw ddata beichiogrwydd a mamolaeth yng Nghyfrifiad 2021. Fodd bynnag, cofnodwyd bod 614 o weithwyr yn cymryd absenoldeb mamolaeth a mabwysiadu, sef 4.60% o'r gweithlu. Mae hyn yn gynydd o 0.01% ar y data a adroddwyd ar 31 Mawrth 2024.

Creddau Crefyddol

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae tua 46-48% o boblogaeth ein siroedd yn Gristnogion, tua 43-44% heb unrhyw grefydd a byddai'n well gan 6-7% beidio â dweud.

Sir	% o'r boblogaeth sy'n ystyried eu hunain yn Gristnogion	% y boblogaeth sy'n nodi nad oes ganddynt unrhyw grefydd	% y boblogaeth na atebodd
Ceredigion	46.7%	43%	7.7%
Sir Gaerfyrddin	48.8%	43%	6.6%
Sir Benfro	47.6%	44.4%	6.2%

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2021

Mae canran y staff sy'n nodi crefydd neu gred benodol wedi codi 1.76% o gymharu â data a adroddwyd ar 31 Mawrth 2024. Mae proffil gweithlu Hywel Dda yn amlygu bod 42.62% yn Gristnogion, 13.76% o grefyddau eraill, dywedodd 17.39% eu bod yn anffyddwyr a bod yn well gan 18.45% beidio â dweud. Nid yw 7.78% o'r gweithlu wedi'u cofnodi ar ESR sy'n ei gwneud yn anos dod i gasgliad ar y data.

Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae data o Gyfrifiad 2021 yn dangos sut mae'r boblogaeth ar draws y tair sir wedi nodi eu cyfeiriadedd rhywiol.

Sir	Deurywiol	Hoyw/Lesbiaidd	Heterorywiol/Syth	Heb ateb
Ceredigion	2.63%	1.5%	84.70%	10.43%
Sir Gaerfyrddin	1.02%	1.07%	89.80%	7.89%
Sir Benfro	0.96%	1.9%	89.73%	7.92%

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2021

Ar 31 Mawrth 2025 roedd data'r Bwrdd Iechyd yn dangos bod 2.61% o staff wedi cofnodi eu cyfeiriadedd rhywiol fel Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol, sy'n gynydd o 0.19% ers 31 Mawrth 2024.

O gymharu â 2024, roedd data gwybodaeth gweithlu ar 31 Mawrth 2025 yn dangos:

- Mae canran y staff sy'n nodi eu bod yn heterorywiol neu'n syth wedi cynyddu 1.93%
- Mae canran y staff sy'n dewis peidio â datgelu'r wybodaeth hon wedi gostwng 0.78%.
- Mae'r staff hynny nad yw eu cofnodion wedi'u cofnodi ar ESR wedi gostwng 1.4% i 7.67%.
- gyfanswm o 56,682 o geisiadau a gyflwynwyd ar gyfer swyddi gwag, nododd 2.70% o ymgeiswyr eu bod yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol (LHD) tra dewisodd 2.90% beidio â datgelu eu cyfeiriadedd rhywiol ar adeg y cais. Cynigiwyd cyflogaeth i 3.60% o'r rhai y cynigiwyd cyflogaeth iddynt y nodwyd eu bod yn LHD.

Iaith Gymraeg

Yn ôl Arolwg Poblogaeth Cenedlaethol 2022 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae tua 48% o boblogaeth Hywel Dda yn gallu siarad Cymraeg. Adroddodd data Cyfrifiad 2021 broffiliau sylweddol gwahanol o Siarad Cymraeg ar draws y 3 sir. Mae gan Geredigion 45.3%, roedd Sir Gaerfyrddin ychydig yn is ar 39.9% tra bod gan Sir Benfro 17.2%.

Sir	% y boblogaeth sydd â gallu i siarad Cymraeg
Ceredigion	45.3%
Sir Gaerfyrddin	39.9%
Sir Benfro	17.2%

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2021

Ar 31 Mawrth 2025, cofnododd data'r Bwrdd Iechyd fod:

- Mae gan 35.0% o'r gweithlu sgiliau iaith Gymraeg ar lefel sylfaenol neu uwch, tra ei fod yn dangos gostyngiad bychan o 0.03% mae cynnydd yn nifer y staff o 106 o weithwyr ychwanegol ar lefel sylfaen ac uwch.
- Mae 40.4% o'r gweithlu wedi cofnodi eu gallu fel rhai heb unrhyw sgiliau Cymraeg sydd wedi cynyddu 0.7% ers y flwyddyn flaenorol.
- Y staff hynny nad yw eu Sgiliau Iaith Gymraeg wedi'u cofnodi ar ESR yw 2.6% (312 o weithwyr). Mae hyn wedi cynyddu o 22 o gymharu â'r nifer a adroddwyd yn 2023/24.

Dadansoddiad Croestoriadol

Gall pobl gael mwy nag un nodwedd warchoddedig ac, mae agweddau ar bwy ydym ni, er enghraifft, ein rhyw, hil, cyfeiriadedd rhywiol a statws economaidd-gymdeithasol yn gallu cynyddu ein profiadau cadarnhaol neu gyfrannu at brofiadau negyddol. Gall hyn gael ei waethygu gan effeithiau cyfunol

gwahaniaethu lluosog, rhwystrau a heriau. Rydym felly'n defnyddio dull croestoriadol wrth ddadansoddi data ein gweithlu, i nodi unrhyw effeithiau negyddol o gael cyfuniad o nodweddion gwarchoddedig, i ddeall profiadau ein staff yn well a chymryd camau i ddileu anfantais a sicrhau, yr hyn a wnawn fel cyflogwr, nad yw'n creu rhwystrau.


Cyflwynir data cydraddoldeb y gweithlu yn Atodiad Un fesul nodwedd warchoddedig unigol, felly rydym wedi cynnal dadansoddiad manylach o'r data ac wedi defnyddio dull croestoriadol, i ganfod a yw staff sydd â mwy nag un nodwedd warchoddedig yn profi mwy o anfantais. Disgrifir rhai o'r canfyddiadau allweddol isod.

Mae rhaniad proffil ein gweithlu yn ôl rhyw yr un fath â'r llynedd, sy'n dangos bod canran y staff benywaidd yn uwch yn gyffredinol (Ffigur un) ac yn parhau i fod yr un fath ar gyfer bandiau cyflog uwch 8a ac 8b yr Agenda ar gyfer Newid (AfC) (Ffigur dau). Fodd bynnag, mae canran y staff benywaidd yn is na phroffil y Bwrdd Iechyd ar gyfer band cyflog 8c. Y llynedd, dangosodd band 8d hefyd ostyngiad tebyg mewn cynrychiolaeth menywod ond oherwydd recriwtio i'r rolau uwch hyn yn ystod 2024 – 2025, mae'r rhaniad canrannol yn ôl rhyw ar gyfer band 8d bellach yn agosach at broffil cyffredinol y Bwrdd Iechyd.

Y llynedd dangosodd band 9 ganran sylweddol uwch o wrywod (63%) o gymharu â menywod (37%) ond, eleni, er bod cynrychiolaeth menywod yn dal yn sylweddol is na'r bandiau AfC eraill, mae'r rhaniad yn fwy cyfartal gyda 57% yn ddynion a 43% yn fenywod.


Byddwn yn parhau i archwilio'r rhesymau pam nad yw rhai o'n rolau uwch yn cynrychioli proffil cyffredinol y Bwrdd Iechyd yn ôl rhyw, i sicrhau nad oes unrhyw ragfarnau rhywedd na ffactorau cyfrannol eraill yn draddodiadol a bod cyfleoedd ar gyfer camu ymlaen mewn gyrfa ar lefelau uwch ar gael i bawb.

Rhaniad Proffil Bwrdd Iechyd yn ôl Rhyw



Ffigur un


Rhaniad Rhyw ar gyfer Bandiau Cyflog Uwch 8A-9



Ffigur dau

Mae dadansoddiad o ddata'r gweithlu yn ôl ethnigrwydd a rhyw ar gyfer bandiau cyflog AfC (Ffigur tri) gyda chymariaethau â'r llynedd, yn dangos, ar gyfer staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, bod y canrannau yn ôl rhyw wedi aros yn gyfartal ar y cyfan, gyda band 5 yn dal i ddangos rhaniad rhyw debyg i'r Bwrdd lechyd yn gyffredinol, gyda menywod (12%) a dynion (2%). Fodd bynnag, er bod eleni wedi gweld penodiadau ar fand 8b, nid oes unrhyw staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (gwrywaidd neu fenywaidd) ar fandiau cyflog 8d a 9 o hyd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i symud ymlaen â chynllun gweithredu lleol y Bwrdd lechyd ar gyfer Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru a Safon Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu Llywodraeth Cymru a sefydlwyd tasglu mewnol wedi'i sefydlu i ddileu gwahaniaethu a sicrhau bod pob unigolyn, waeth beth fo'i gefndir neu hunaniaeth, yn cael mynediad cyfartal i addysg a hyfforddiant, recriwtio, dyrchafiad a chymorth yn y gweithle.

Staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig – Rhaniad Rhyw yn ôl Band Cyflog



Ffigur tri

Parch a Datrys a dadansoddi achosion Disgyblu

Mae dadansoddiad wedi'i wneud o'r data cydraddoldeb ar gyfer achosion ffurfiol Parch a Datrys ac achosion Disgyblu ffurfiol ac mae crynodeb wedi'i ddarparu yn yr adran hon. Er bod Timau'r Gweithlu'n parhau i roi cyngor a chymorth mewn perthynas ag achosion anffurfiol, ni allwn ddal yr holl achosion anffurfiol o fewn y Bwrdd lechyd gan fod rhai rheolwyr yn ymdrin â'r rhain eu hunain heb ymyrraeth gweithlu gweithredol, ac eraill yn cael eu nodi gan y tîm Diwylliant neu Berthynas Datblygu Sefydliadol.

Yn gyffredinol, rydym wedi gweld nifer yr achosion disgyblu ffurfiol a pharch a datrys yn cynyddu'n sylweddol eleni. Bydd y rhesymau dros y cynnydd hwn yn amrywio ac mae'n amlwg bod dull y Bwrdd lechyd o annog diwylliant o godi llais yn parhau i annog cyflogeion i godi eu pryderon.

Mae tîm y Gweithlu yn parhau i annog ymagwedd dosturiol at ei brosesau a lle bo angen gwneir pob ymdrech i fynd i'r afael â phryderon a materion ymddygiad mewn modd anffurfiol i annog dysgu o ddigwyddiadau ac ymagwedd dosturiol at faterion o'r fath.

Mae nifer yr achosion a ddygwyd o dan y broses Cynnal Safonau Proffesiynol Meddygol a Deintyddol yng Nghymru (UPSW), sydd wedi'u cynnwys yn y set ddata hon, wedi cynyddu eleni.

Naratif ar y nodweddion gwarchoddedig mewn perthynas â Pharch a Datrys:

Dylid nodi'r pwyntiau canlynol wrth gymharu'r data achos â'r data cyfatebol ar gyfer cyfrif pennau:

- Eleni, mae cyfran uwch o staff rhwng 51-55 **oed** a 3640 yn mynegi pryderon o dan y broses Parch a Datrys sy'n wahanol i'r llynedd. Mae staff 56-60 oed wedi aros yn y tri uchaf.
- Nid oes unrhyw dueddiadau canfyddadwy o ran staff ag anabledd datganedig sydd wedi codi pryderon o dan y broses Parch a Datrys, ni chadarnhawyd bod y pryderon hynny yn ymwneud â'u hanabledd.
- Nid oedd unrhyw dueddiadau canfyddadwy yn y wybodaeth a ddarparwyd ar **ethnigrwydd** ac mae'r wybodaeth yn gymharol debyg i ffigurau cyfrif pennau ethnigrwydd cyffredinol y Bwrdd lechyd.
- Mae'r wybodaeth sy'n ymwneud â **rhyw** wedi gweld newid o fod yn gymharol debyg o ran cyfran yr achwynwyr gwrywaidd i fenywaidd (yn 2023/2024) i gynnydd mewn achwynwyr benywaidd ar gyfer 2024/2025, y gellir esbonio rhai ohonynt gan nifer o gwynion cyfunol a dderbyniwyd.
- Mae'r wybodaeth am **Statws Priodasol (Priodas a Phartneriaethau Sifil)** yn cymharu'n fras â gwybodaeth statws priodasol cyffredinol y Bwrdd lechyd ac ni fu unrhyw achosion o fewn y cyfnod cyfeirio sydd wedi cyfeirio at statws priodasol fel ffactor a gyfrannodd.

- Nid oedd unrhyw dueddiadau canfyddadwy yn y wybodaeth a ddarparwyd ar **Grefydd a Chred** a oedd yn awgrymu effaith anghymesur ar unrhyw grwpiau o staff.
- Nid oeddem yn gallu dirnad unrhyw dueddiadau mewn perthynas â **chyfeiriadedd rhywiol** ar sail y wybodaeth a ddarparwyd. Fodd bynnag, nid oedd achosion cysylltiadau gweithwyr o fewn y cyfnod cyfeirio yn cyfeirio at gyfeiriadedd rhywiol fel mater a gyfrannodd at y pryder ei hun a godwyd.

Naratif ar y nodweddion gwarchoddedig mewn perthynas ag achosion Disgyblu:

- Mae cyfran ychydig yn uwch o staff rhwng 26-30, 31-35 a 51 – 55 oed yn mynd trwy brosesau disgyblu ffurfiol a fyddai'n cyfateb i'n canrannau o gyfrif pennau yn y ddemograffeg oedran hon. Nid oeddem yn gallu dirnad unrhyw dueddiadau mewn perthynas ag oedran eleni ar sail y wybodaeth a ddarparwyd.
- Mae cynnydd yn nifer y staff ag **anabledd datganedig** sy'n ymwneud ag achosion disgyblu ffurfiol. Bydd addasiadau rhesymol a chyingor lechyd Galwedigaethol yn cael eu hystyried ym mhob achos drwy gydol y broses.
- Nid oedd unrhyw dueddiadau canfyddadwy yn y wybodaeth a ddarparwyd ar **ethnigrwydd** ac mae'r wybodaeth yn gymharol debyg i ffigurau cyfrif pennau ethnigrwydd cyffredinol y Bwrdd lechyd.
- Nid oeddem yn gallu dirnad unrhyw dueddiadau mewn perthynas â **rhyw** eleni ar sail y wybodaeth a ddarparwyd.
- Mae'r wybodaeth am **Statws Priodasol (Priodas a Phartneriaethau Sifil)** yn cymharu'n fras â gwybodaeth statws priodasol cyffredinol y Bwrdd lechyd er ei bod yn ymddangos bod gostyngiad bach wedi bod yng nghyfran y staff sy'n nodi eu bod yn briod ac sydd wedi bod yn destun proses ddisgyblu yn 2024/2025 a chynnydd yn y rhai sy'n nodi eu bod yn sengl.
- Bu cynnydd yn nifer y staff a nododd eu **credoau crefyddol** fel anffyddiaeth, fodd bynnag nodwyd na chyfeiriwyd at grefydd a chred fel mater mewn unrhyw achos disgyblu.
- Mae cynnydd yn nifer y staff sydd wedi nodi bod eu **cyfeiriadedd rhywiol** yn hoyw neu'n lesbiaidd yn destun proses ddisgyblu ffurfiol, fodd bynnag ni chyfeiriwyd at gyfeiriadedd rhywiol fel mater yn yr achosion hyn.

Camau Nesaf

O ganlyniad i'n dadansoddiad o ddata cydraddoldeb gweithlu a bwlch cyflog, rydym wedi datblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer 2025-2026. Drwy fonitro ein cynllun gweithredu drwy gydol y flwyddyn gallwn ddangos ein bod yn parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r wybodaeth sydd gennym am ein gweithlu, a phan fydd y data'n dweud wrthym y gallai anghydraddoldeb fodoli, beth rydym yn mynd i'w wneud i ymchwilio ymhellach a chymryd camau i ddileu anfantais.

Atodiad 1 – Data Cydraddoldeb Gweithlu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda 2024- 25 Oed

Ein Gweithlu

1.1 Cyfrif pennau

	Cyfrif pennau	%
<= 20 oed	257	1.92%
21 i 25	926	6.93%
26 i 30	1,290	9.65%
31 i 35	1,531	11.46%
36 i 40	1,636	12.24%
41 i 45	1,553	11.62%
46 i 50	1,475	11.04%
51 i 55	1,694	12.68%
56 i 60	1,568	11.74%
61 i 65	1,051	7.87%
66 i 70	296	2.22%
>= 71 oed	84	0.63%
Cyfanswm	13,361	100%

	<= 20 oed	21 i 25	26 i 30	31 i 35	36 i 40	41 i 45	46 i 50	51 i 55	56 i 60	61 i 65	66 i 70	>= 71 oed	Cyfanswm
Gwyddonol a Thechnegol Proffesiynol	0	19	47	72	77	70	52	49	27	12	4	6	435
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	154	395	386	385	346	324	258	309	327	206	51	11	3,152
Gweinyddiaeth a Chlercyddol	17	70	162	213	284	289	296	399	380	238	56	24	2,428
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	0	64	107	133	124	131	99	88	67	45	11	2	871
Ystadau ac Ategol	86	105	67	78	87	109	119	121	174	162	53	17	1,178
Gwyddonwyr Gofal Iechyd	0	19	15	29	26	29	34	25	24	9	4	1	215
Meddygol a Deintyddol	0	6	104	109	129	134	116	122	99	57	45	13	935
Nyrsio a Bydwreigiaeth Cofrestredig	0	248	401	511	563	467	501	581	470	322	72	10	4,146
Myfyrwyr	0	0	0	1	0	0	0	0	0	0	0	0	1
Cyfanswm	257	84	1,290	1,531	1,636	1,553	1,475	1,694	1,568	1,050	296	84	13,361

1.2 Dadansoddiad o Gyflog fesul Grŵp a Band Staff

	<= 20 oed	21 i 25	26 i 30	31 i 35	36 i 40	41 i 45	46 i 50	51 i 55	56 i 60	61 i 65	66 i 70	>= 71 oed	Cyfanswm
Band 1	0	0	0	0	0	1	1	1	1	2	2	0	8
Band 2	234	431	324	302	275	264	229	285	363	284	90	31	3,112
Band 3	15	76	123	187	157	156	155	160	214	146	29	11	1,429
Band 4	5	42	92	98	140	136	126	198	149	85	22	8	1,101
Band 5	1	281	338	360	335	269	252	274	236	171	47	6	2,570
Band 6	0	76	222	286	314	249	267	286	217	151	28	11	2,107
Band 7	0	13	70	120	195	195	191	214	170	102	25	1	1,296
Band 8a	0	0	15	57	61	97	78	74	59	19	2	1	463
Band 8b	0	0	0	9	21	28	32	26	15	8	0	1	140
Band 8c	0	0	0	2	5	12	15	28	15	5	1	1	84
Band 8d	0	0	0	0	0	1	5	13	8	7	0	0	34
Band 9	0	0	0	0	1	6	2	4	7	3	0	0	23
Ymgynghorydd	0	0	0	3	32	51	60	72	56	32	24	7	337
Meddygon Arbenigol	0	0	6	20	47	45	30	19	11	5	5	0	188
Meddygon Eraill dan Hyfforddiant	0	6	75	52	30	16	6	2	4	4	1	0	196
Ymarferwyr Ysbyty a Cynorthwywyr Clinigol	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0	1
Staff Meddygol a Deintyddol Eraill	0	0	0	0	3	3	6	10	11	7	5	0	47
Arall	2	1	25	35	20	24	20	28	32	20	14	2	225
Cyfanswm	257	926	1,290	1,531	1,636	1,553	1,475	1,694	1,568	1,051	296	84	13,361

Cyflwg Cyfartalog

	Gwyddonol a Thechnegol Proffesiynol	Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	Gweinyddiaeth a Chlercyddol	Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd	Ystadau ac Ategol	Gwyddonwyr Gofal lechyd	Meddygol a Deintyddol	Nyrsio a Bydwreigiaeth Cofrestredig	Myfyrwyr	Cyfanswm
>=20 oed	£0.00	£24,132.80	£25,222.41	£0.00	£24,170.83	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00	£24,261.87
21 i 25	£40,162.25	£25,419.67	£26,142.88	£34,381.66	£24,631.43	£35,783.73	£42,721.80	£31,838.76	£0.00	£29,244.01
26 i 30	£45,586.65	£26,138.57	£29,538.89	£39,190.50	£25,431.69	£41,540.00	£45,567.64	£35,578.00	£0.00	£33,423.11
31 i 35	£49,716.61	£25,884.71	£31,515.99	£43,603.06	£25,738.03	£46,646.47	£59,831.82	£37,858.64	£32,810.00	£36,244.56
36 i 40	£49,623.39	£26,129.37	£35,148.41	£47,855.70	£26,706.57	£45,958.49	£88,056.59	£40,301.22	£0.00	£40,605.34
41 i 45	£52,374.16	£26,324.24	£40,440.69	£49,589.91	£26,495.12	£47,850.64	£98,273.86	£42,957.89	£0.00	£43,923.95
46 i 50	£52,274.82	£26,469.91	£39,818.59	£49,549.47	£25,966.98	£49,586.94	£110,497.67	£44,002.35	£0.00	£44,817.07
51 i 55	£54,869.95	£26,989.90	£38,495.47	£51,844.74	£26,118.10	£50,970.57	£123,089.92	£45,455.30	£0.00	£45,455.30
56 i 60	£55,791.34	£26,257.43	£36,503.16	£51,949.58	£25,619.42	£55,022.99	£126,167.17	£46,552.13	£0.00	£43,090.44
61 i 65	£55,614.80	£26,288.66	£34,598.74	£49,585.76	£26,014.93	£50,009.16	£125,921.36	£46,074.09	£0.00	£40,153.23
66 i 70	£49,094.75	£25,709.05	£28,910.93	£54,119.02	£26,656.85	£52,274.50	£128,882.19	£46,511.01	£0.00	£49,200.15
>= 71 oed	£58,653.02	£26,306.70	£30,835.59	£45,637.00	£24,787.34	£0.00	£125,476.97	£42,466.45	£0.00	£44,065.60
Cyfanswm	£50,606.83	£26,097.22	£35,929.92	£46,189.24	£25,844.82	£47,425.74	£98,736.59	£41,401.13	£32,810.00	£40,363.27

Mae'r tabl uchod yn dangos dadansoddiad o gyflwg gan ddefnyddio cyflwg blynyddol cymedrig fel sail a'r ffigurau a ddangosir yw'r rhai ar gyfer Mawrth 2025.

1.3 Math o Gontract a Phatrwm Gwaith

Math o Gontract						
	Parhaol	Cyfnod penodol dros dro	Locwm	Cyfarwyddwr/Cadeirydd Anweithredol	Banc	Cyfanswm
<= 20 oed	168	8	0	0	81	257
21 i 25	666	57	0	0	203	926
26 i 30	1,001	117	10	0	162	1,290
31 i 35	1,302	91	15	0	123	1,531
36 i 40	1,448	65	13	0	110	1,636
41 i 45	1,371	73	9	0	100	1,553
46 i 50	1,350	50	5	2	68	1,475
51 i 55	1,561	48	5	1	79	1,694
56 i 60	1,448	42	4	2	72	1,568
61 i 65	897	47	7	2	98	1,051
66 i 70	217	22	5	2	50	296
>= 71 oed	59	3	5	0	17	84
Cyfanswm	11,488	623	78	9	1,163	13,361

Patrwm Gwaith			
	Llawn amser	Rhan amser	Cyfanswm
<= 20 oed	117	140	257
21 i 25	531	395	926
26 i 30	793	497	1,290
31 i 35	798	733	1,531
36 i 40	875	761	1,636
41 i 45	863	690	1,553
46 i 50	908	567	1,475
51 i 55	965	729	1,694
56 i 60	682	886	1,568
61 i 65	262	789	1,051
66 i 70	62	234	296
>= 71 oed	6	78	84
Cyfanswm	6,862	6,499	13,361

1.4 Recriwtio

Sylwer: Gan fod y data Recriwtio yn cael ei dynnu o Trac yn hytrach nag ESR mae'r Bandiau Oedran yn cael eu hadrodd yn wahanol i'r rhai yn ESR.

	Cyfanswm y Ceisiadau a Dderbyniwyd	%	Cyfanswm Nifer yr Ymgeiswyr ar y Rhestr Fer	%	Cyfanswm Nifer yr Ymgeiswyr a Gynigir	%
<= 20 oed	839	1.5%	342	4.2%	126	4.7%
20 i 24	5,488	9.7%	925	11.3%	311	11.7%
25 i 29	20,243	35.7%	1,388	17.0%	469	17.7%
30 i 34	12,572	22.2%	1,322	16.2%	396	14.9%
35 i 39	7,372	13.0%	1,205	14.7%	364	13.7%
40 i 44	4,376	7.7%	932	11.4%	302	11.3%
45 i 49	2,622	4.6%	702	8.6%	238	8.9%
50 i 54	1,642	2.9%	660	8.1%	233	8.7%
55 i 59	945	1.7%	451	5.5%	129	4.8%
60 i 64	464	0.8%	209	2.6%	72	2.7%
>= 65 oed	117	0.2%	47	0.6%	23	0.9%
Heb ei ddatgelu	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%
Cyfanswm	56,680		8,183		2,663	100%

Sylwer: Roedd y ffigwr a ddangosir fel 56,680 (yn hytrach na'r cyfanswm cyffredinol o 56,682) o Gyfanswm y Ceisiadau a Dderbyniwyd a'r ffigwr a ddangosir fel 8,183 (yn hytrach na'r cyfanswm cyffredinol o 8,185 o Gyfanswm y Ceisiadau ar y Rhestr Fer oherwydd diogelu cyfrinachedd. Mae unrhyw nifer a adroddwyd gyda gwerth llai na 5 wedi ei dalgrynnu i lawr i sero.

1.5 Ymadawyr

	Cyfrif pennau	%
<= 20 oed	29	2.80%
21 i 25	74	7.16%
26 i 30	99	9.57%
31 i 35	95	9.19%
36 i 40	83	8.03%
41 i 45	65	6.29%
46 i 50	68	6.58%
51 i 55	101	9.77%
56 i 60	178	17.21%
61 i 65	138	13.34%
66 i 70	85	8.22%
>= 71 oed	19	1.84%
Cyfanswm	1,034	100%

1.6 Presenoldeb Hyfforddiant

	Presenoldeb / Cyrsiau Cwblhawyd	%
<= 20 oed	3,423	4.13%
21 i 25	9,107	10.98%
26 i 30	9,383	11.31%
31 i 35	10,022	12.08%
36 i 40	9,640	11.62%
41 i 45	9,027	10.88%
46 i 50	8,509	10.25%
51 i 55	9,049	10.91%
56 i 60	8,462	10.20%
61 i 65	4,839	5.83%
66 i 70	1,387	1.67%
>= 71 oed	118	0.14%
Cyfanswm	82,967	100%

1.7 Staff sy'n Ymwneud â Gweithdrefnau Disgyblu

	Cyfrif pennau	%
<= 20 oed	2	1.48%
21 i 25	7	5.19%
26 i 30	16	11.85%
31 i 35	20	14.82%
36 i 40	14	10.37%
41 i 45	17	12.59%
46 i 50	11	8.15%
51 i 55	22	16.30%
56 i 60	17	12.59%
61 i 65	6	4.44%
66 i 70	3	2.22%
>= 71 oed	0	0.00%
Cyfanswm	135	100%

1.8 Staff sy'n ymwneud â Gweithdrefnau Parch a Datrys

	Cyfrif pennau	%
<= 20 oed	0	0.00%
21 i 25	1	1.82%
26 i 30	4	7.27%
31 i 35	7	12.73%
36 i 40	8	14.55%
41 i 45	5	9.09%
46 i 50	6	10.91%
51 i 55	10	18.18%
56 i 60	9	16.36%
61 i 65	4	7.27%
66 i 70	1	1.82%
>= 71 oed	0	0.00%
Cyfanswm	55	100%

Anabledd

Ein Gweithlu

2.1 Cyfrif Pennau

	Cyfrif pennau	%
Anabl	718	5.37%
Ddim yn anabl	11,127	83.28%
Gwell beidio â dweud	53	0.40%
Heb ei Gofnodi ar ESR	1,463	10.95%
Cyfanswm	13,361	100%

	Anabl	Ddim yn anabl	Gwell beidio â dweud	Heb ei gofnodi ar ESR	Cyfanswm
Gwyddonol a Thechnegol Proffesiynol	26	369	0	40	435
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	147	2,746	13	246	3,152
Gweinyddiaeth a Chlercyddol	167	1,996	14	251	2,428
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	66	720	0	85	871
Ystadau ac Ategol	58	920	2	198	1,178
Gwyddonwyr Gofal Iechyd	7	167	1	40	215
Meddygol a Deintyddol	16	745	4	170	935
Nyrsio a Bydwreigiaeth Cofrestredig	231	3,463	19	433	4,146
Myfyrwyr	0	1	0	0	1
Cyfanswm	718	11,127	53	1,463	13,361

2.2 Cyflog fesul Grŵp Staff a Band

	Anabl	Ddim yn anabl	Gwell beidio â dweud	Heb ei gofnodi ar ESR	Cyfanswm
Band 1	0	3	0	5	8
Band 2	155	2,636	11	310	3,112
Band 3	91	1,193	7	138	1,429
Band 4	57	883	5	156	1,101
Band 5	137	2,122	14	297	2,570
Band 6	146	1,759	5	197	2,107
Band 7	80	1,086	5	125	1,296
Band 8a	20	405	2	36	463
Band 8b	4	128	0	8	140
Band 8c	3	74	0	7	84
Band 8d	3	29	0	2	34
Band 9	2	20	0	1	23
Ymgynghorydd	6	258	2	71	337
Meddygon Arbenigol	1	153	1	33	188
Meddygon Eraill dan Hyfforddiant	7	179	0	10	196
Ymarferwyr Ysbyty a Cynorthwyr Clinigol	0	0	0	1	1
Staff Meddygol a Deintyddol Eraill	0	31	0	16	47
Arall	6	168	1	50	225
Cyfanswm	718	11,127	53	1,463	13,361

Cyflog Cyfartalog

	Anabl	Ddim yn anabl	Gwell beidio â dweud	Heb ei gofnodi ar ESR	Cyfanswm
Gwyddonol a Thechnegol Proffesiynol	£51,444.38	£50,986.69	£0.00	£45,561.01	£50,606.83
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	£26,248.70	£26,028.62	£26,326.48	£26,699.32	£26,097.22
Gweinyddiaeth a Chlercyddol	£34,640.23	£36,087.10	£35,341.89	£35,551.33	£35,929.92
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd	£42,989.05	£45,952.77	£0.00	£50,854.22	£46,189.24
Ystadau ac Ategol	£25,554.69	£26,022.20	£24,755.98	£25,445.47	£25,884.82
Gwyddonwyr Gofal lechyd	£44,666.23	£46,942.15	£49,254.00	£49,953.35	£47,425.74
Meddygol a Deintyddol	£90,389.33	£95,124.37	£121,764.55	£116,005.45	£98,736.59
Nyrsio a Bydwreigiaeth Cofrestredig	£41,349.33	£41,584.65	£38,277.84	£40,023.63	£41,401.13
Myfyrwyr	£0.00	£32,810.00	£0.00	£0.00	£32,810.00
Cyfanswm	£37,611.89	£40,087.29	£40,132.87	£43,855.99	£40,363.27

Mae'r tabl uchod yn dangos dadansoddiad o gyflog gan ddefnyddio cyflog blynyddol cymedrig fel sail a'r ffigurau a ddangosir yw'r rhai ar gyfer Mawrth 2025.

2.3 Math o Gontract a Phatrwm Gwaith

Math o Gontract						
	Parhaol	Cyfnod Penodol dros dro	Locwm	Cyfarwyddwr/Cadeirydd Anweithredol	Banc	Cyfanswm
Anabl	641	23	1	1	52	718
Ddim yn anabl	9,471	556	61	6	1,033	11,127
Gwell beidio â dweud	48	1	16	0	4	53
Heb ei gofnodi ar ESR	1,328	43	0	2	74	1,463
Cyfanswm	11,488	623	78	9	1,163	13,361

Patrwm Gwaith			
	Llawn amser	Rhan amser	Cyfanswm
Anabl	368	350	718
Ddim yn anabl	5,772	5,355	11,127
Gwell beidio â dweud	31	22	53
Heb ei gofnodi ar ESR	691	772	1,463
Cyfanswm	6,862	6,499	13,361

2.4 Recriwtio

	Cyfanswm y Ceisiadau a Dderbyniwyd	%	Cyfanswm Nifer yr Ymgeiswyr ar y Rhestr Fer	%	Cyfanswm Nifer yr Ymgeiswyr a Gynigir	%
Anabledd: Oes	1,730	3.1%	579	7.1%	166	6.2%
Anabledd: Nac oes	54,154	95.5%	7,204	88.0%	2,298	86.3%
Anabledd: Heb ei ddatgelu	798	1.4%	402	4.9%	199	7.5%
Cyfanswm	56,682	100%	8,185	100%	2,663	100%

2.5 Ymadawyr

	Cyfrif pennau	%
Anabl	62	6.00%
Ddim yn anabl	813	78.62%
Gwell beidio â dweud	3	0.29%
Heb ei gofnodi ar ESR	156	15.09%
Cyfanswm	1,034	100%

2.6 Presenoldeb Hyfforddiant

	Presenoldeb / Cyrsiau Cwblhawyd	%
Anabl	2,574	3.10%
Ddim yn anabl	40,241	48.50%
Gwell beidio â dweud	230	0.28%
Heb ei gofnodi ar ESR	39,922	48.12%
Cyfanswm	82,967	100%

2.7 Staff sy'n Ymwneud â Gweithdrefnau Disgyblu

	Cyfrif pennau	%
Anabl	14	10.37%
Ddim yn anabl	113	83.70%
Heb ei gofnodi ar ESR	8	5.93%
Cyfanswm	135	100%

2.8 Staff sy'n ymwneud â Gweithdrefnau Parch a Datrys

	Cyfrif pennau	%
Anabl	6	10.91%
Ddim yn anabl	43	78.18%
Heb ei gofnodi ar ESR	6	10.91%
Cyfanswm	55	100%

Ethnigrwydd

Ein gweithlu

